
# YSGOL GWYDDORAU IECHYD

## Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio

## NHS-3501

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



### Cwrs Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio Newydd

Mae Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Prifysgol Bangor yn falch o gyhoeddi lansiad ein rhaglen Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio newydd, wedi'i dilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Cynlluniwyd ein cwrs i ddarparu llwybr hyblyg i gyn-nyrsys ddychwelyd i fyd deinamig ymarfer clinigol. Mae hefyd yn addas i unigolion sydd wedi ymuno â'r gofrestr dros dro, ac sy'n dymuno dychwelyd yn barhaol. Mae ein rhaglen yn darparu profiad dysgu pwrpasol ym mhob maes nyrsio sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau gwneud penderfyniadau, adnewyddu gwybodaeth, a chefnogi hyfedredd mewn sgiliau a gweithdrefnau clinigol.

### Dull Cyflwyno

Mae hwn yn gwrs gradd, 30 credyd, ar lefel 6. Gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, defnyddir cymysgedd o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb i ddiweddaru eich gwybodaeth nyrsio, ac yn sail i hyn oll mae egwyddorion gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd gwybodaeth a sgiliau clinigol yn cael eu cyfuno yn ystod lleoliad rhan-amser o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yma byddwch yn derbyn cefnogaeth ardderchog gan aseswyr ymarfer a goruchwylwyr, wrth brofi'r ystod o wasanaethau a gynigir gan y sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru.

### Rhagolygon Gyrfa

Bydd cwblhau'r cwrs hwn yn gwella rhagolygon cyflogaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae gan y cwrs hanes rhagorol o gynorthwyo myfyrwyr llwyddiannus i ddychwelyd i gyflogaeth a hyfforddiant clinigol pellach.

**Mae bwrsariaeth gwerth £3000 ar gael gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i fyfyrwyr cymwys**



## Trefn y Cwrs

• Bloc theori rhan-amser cychwynnol o 10 diwrnod • Lleoliad clinigol rhan-amser: 150-450 awr, yn dibynnu ar yr amser ers eich profiad blaenorol, a thystiolaeth o brofiad a dysgu blaenorol (cydnabod dysgu blaenorol trwy brofiad).

## Ariennir ffioedd y cwrs gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

• Mae bwrsariaeth gwerth £3000 ar gael gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i fyfyrwyr cymwys.

## Darpariaeth Ddwyieithog

- Mae'r modiwl hwn ar gael yn ddwyieithog, gyda chefnogaeth diwtorial trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg.

## Sut fyddaf yn astudio?

Cyflwynir y rhaglen trwy gymysgedd o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys darlithoedd, tiwtorialau, gweithdai a gwaith grŵp. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu defnyddio'r offer Technoleg Gwybodaeth perthnasol a'r rhyngrwyd i fynychu'r theori.

## Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Dangos y gallu i gynnal asesiad nyrsio cywir a thosturiol o bobl gan ddefnyddio sgiliau diagnostig priodol a sgiliau gwneud penderfyniadau wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal mewn modd effeithiol.
- Gwerthuso'n feirniadol, cymhwyso gwybodaeth, a dangos y sgiliau i fod yn weithiwr proffesiynol atebol, gan weithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal diogel a thosturiol ar sail tystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau, datrys problemau a dadansoddi'n feirniadol.
- Diweddaru sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol. Myfyrio'n feirniadol ar eich ymarfer eich hun, gan wella hunanymwybyddiaeth i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwytnwch.

"Dwi wir yn teimlo'n barod i fynd yn ôl allan i ymarfer eto ar ôl gwneud y rhaglen yma. Mae'r cwrs wedi rhoi lot o bethau i fi eu defnyddio, efo ffyrdd newydd o asesu cleifion a digon o bethau i feddwl amdanyn nhw. Dwi wir wedi ei fwynhau a dwi nawr yn gweithio mewn ymarfer clinigol fel nyrs staff amser llawn ar uned asesu meddygol acíwt brysur. Diolch am y gefnogaeth hyblyg ac am bob dim dwi wedi ei ddysgu trwy gydol y cwrs."

**Susanne Pook.**

## Prifysgol Bangor

Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd yn rhan o Brifysgol Bangor sy'n brifysgol arloesol, lle mae rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil yn cael ei ategu gan gefnogaeth unigol, yn amrywio o diwtor personol, tiwtor cyswllt, hwyluswyr addysg ymarfer, a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr.

**Manylion llawn i'w gweld yma**
**Gwnewch gais nawr drwy glicio yma**
**Cod y modiwl: NHS 3501**



Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn, cysylltwch â:
Mrs Jo Jones, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd,
Fron Heulog, Bangor, Gwynedd, LL572EF.
01248 383904
jo.jones@bangor.ac.uk neu
health.applications@bangor.ac.uk.